

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Gorffennaf am 14:00 yng Ngofod Digwyddiadau 6.35, Adeilad SPARK, Heol Maendy, Caerdydd, a thrwy Zoom.

Yn bresennol: Patrick Younge (Cadeirydd), Is-Ganghellor, Angie Flores Acuna, Yr Athro Rudolf Allemann, yr Athro Rachel Ashworth, Paul Baston, Ricardo Calil, Gina Dunn, Judith Fabian, Michael Hampson [Cofnodion 2048-2062], Christopher Jones, Jan Juillerat [Cofnodion 2048-2068], Suzanne Rankin, John Shakeshaft, y Barnwr Ray Singh, Dr Janet Wademan, yr Athro Damian Walford Davies, Agnes Xavier-Phillips.

Y sawl oedd yn bresennol: Yr Athro Pete Burnap [Cofnod 2055], Katy Dale [Cofnodion], Ruth Davies, Bruna Gil [Cofnodion 2048-2058], Rashi Jain, Sue Midha, Dr Elid Morris [Cofnod 2061], Claire Morgan [Cofnodion 2058-2072], Claire Sanders [Cofnodion 2048-2069], Darren Xiberras a'r Athro Roger Whitaker.

2048 Croeso

2048.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn enwedig Angie Flores Acuna (myfyriwr newydd), Suzanne Rankin (aelod lleyg newydd) a'r Athro Roger Whitaker (Rhag Is-ganghellor Ymchwil, Arloesi a Menter newydd) a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf; Croesawyd Gina Dunn hefyd i'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

2049 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

2049.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Marc Buehner, yr Athro Fonesig Janet Finch, yr Athro Ken Hamilton, Dr Joanna Newman, Dr Pretty Sagoo a David Simmons.

2050 Datgan buddiant

NODWYD

2050.1 Cadarnhaodd Suzanne Rankin mewn perthynas ag eitem 34 ar yr agenda [Adroddiad ar Gyd-fentrau] eu bod ar fwrdd Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru a Medicentre Caerdydd;

2050.2 Cadarnhaodd Dr Janet Wademan mewn perthynas ag eitem 26 ar yr agenda [Penodiadau Aelodau Lleyg ac Ailbenodi Rhag Ganghellor] eu bod yn adnabod ymgeisydd arfaethedig ond nad oedd wedi trafod y broses ymgeisio gyda nhw;

2050.3 bod gwrthdaro buddiannau ar gyfer Gina Dunn ac Angie Flores Acuna mewn perthynas ag eitem 26 ar yr agenda [Adolygiad Cytundeb Ariannol Undeb y Myfyrwyr 2021-22].

2051 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Wedi derbyn ac ystyried papurau 21/885C 'Cyngor 28 Ebrill 2022' a 21/884C '08 Mehefin 2022'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

NODWYD

- 2051.1 y cynigiwyd diwygio cofnod 2030.6 o gofnodion 28 Ebrill 2022 i ddarllen “basged o fetrigau” yn hytrach na “basged o fesurau”, o ystyried bod y cofnodion eraill ar gyfer yr eitem hon yn cyfeirio at fetrigau;
- 2051.2 y cynigiwyd dileu marc cwestiwn a gynhwyswyd o dan gofnod 2031.3 o gofnodion 28 Ebrill 2022 gan y credwyd mai camgymeriad oedd hwn;
- 2051.3 y dylid osgoi ymadroddion yn y cofnodion fel “teimlwyd” neu “credwyd” yn y dyfodol wrth gyfeirio at farn pwyllgor.

PENDERFYNWYD

- 2051.4 cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2022 a 08 Mehefin 2022, yn amodol ar y newidiadau y manylir arnynt yng nghofnodion 2051.1-2051.2.

2052 Materion yn codi o'r Cofnodion

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/888 'Materion yn Codi'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

NODWYD

- 2052.1 bod yr holl gamau gweithredu naill ai ar y gweill, wedi'u cwblhau, neu wedi'u cynnwys ar yr agenda.

2053 Eitemau gan y Cadeirydd

Derbyniwyd papur 21/883, 'Camau Gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf'.

NODWYD

- 2053.1 bod ymweliad Cyngor CCAUC wedi'i gynnal ddydd Mercher 06 Gorffennaf a'i fod wedi bod yn gadarnhaol;
- 2053.2 y cadarnhawyd aelodaeth y Cyngor ar Gyd-bwyllgor y Cyngor a'r Senedd fel yr Athro Fonesig Janet Finch, Jan Juillerat a John Shakeshaft; roedd enwau'r pedwerydd aelod allanol i'w penodi gan y Cyngor yn cael eu trafod gyda'r recriwtwyr allanol er mwyn sicrhau nad oedd neb yn mynd at ymgeiswyr posibl; roedd tri aelod o aelodaeth y Senedd o'r Cyd-bwyllgor wedi'u cadarnhau ac roedd balot yn cael ei gynnal i benderfynu ar bedwerydd aelod y Senedd; roedd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor hefyd wedi bod yn cyfarfod â grwpiau rhanddeiliaid mewn perthynas â'r gweithgaredd recriwtio.

2054 Adroddiad Cyllid

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/863C, 'Adroddiad Cyllid (Cyfrifon Rheoli Ariannol)'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

NODWYD

2054.1 [HEPGORWYD]

2054.2 [HEPGORWYD]

2054.3 [HEPGORWYD]

2054.4 [HEPGORWYD]

2054.5 y nodwyd bod diwylliant o ddatblygu cyllidebau diffyg gofalus yn arwain at ganlyniadau diwedd blwyddyn llawer gwell;

2054.6 bod yr archwilwyr allanol newydd wedi darparu manylion data meincnod ar gyfer datganiadau ariannol sefydliadau AU ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21; byddai hwn yn cael ei rannu gydag aelodau'r Cyngor.

PENDERFYNWYD

2054.7 rhannu data meincnodi'r datganiadau ariannol gydag aelodau'r Cyngor.

2055 Cynnig ar gyfer Hyb Arloesedd Seiber (CIH)

Wedi derbyn ac ystyried papur 21/879C 'Cynnig ar gyfer Hyb Arloesedd Seiber (CIH)'. Siaradodd y Rhag Is-Ganghellor dros Recriwtio Myfyrwyr Rhyngwladol a Choleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg a'r Athro Pete Burnap am yr eitem hon.

NODWYD

2055.1 bod yr Athro Pete Burnap wedi ymuno â'r cyfarfod i siarad am yr eitem hon;

2055.2 bod y prosiect yn anelu at gefnogi'r genhedlaeth nesaf o syniadau seiberddiogelwch a datblygu ymchwil academaidd i brosiectau a gwasanaethau, trwy fusnesau newydd a datblygiad proffesiynol;

2055.3 bod y prosiect yn dod â phartneriaid academaidd, masnachol a diwydiant yn yr ardal leol ynghyd;

2055.4 y byddai'r prosiect yn cael ei ariannu'n bennaf drwy incwm y llywodraeth; byddai buddsoddiad y Brifysgol yn "mewn nwyddau" yn bennaf trwy ddarparu staff a chyfleusterau; y gobaith oedd y byddai'r prosiect yn ariannu ei hun ar ôl y 5 mlynedd cychwynnol;

- 2055.5 bod y cynigion wedi'u hadolygu'n ofalus a'u bod yn cynnwys cydweithwyr cyllid a chyfreithiol i roi cyngor ar yr agweddau hyn ar y prosiect; ceisiwyd cyngor cyfreithiol allanol hefyd mewn perthynas â sefydlu a rhedeg yr SPV;
- 2055.6 bod y cynnig wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau;
- 2055.7 bod model y consortiwm wedi'i ddewis i gael arbenigedd a phrofiad o ran yr hyn a wnaeth prosiectau'n llwyddiannus a'r gwersi a ddysgwyd; roedd y prosiect hefyd yn gyfle da i fuddsoddi mewn seiberddiogelwch;
- 2055.8 y nodwyd bod yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg wedi cael trafferth gyda lefelau staffio yn y gorffennol a bod rhai sgoriau ACF isel mewn perthynas â'r Academi Meddalwedd Genedlaethol yng Nghasnewydd; y gobaith oedd y byddai'r prosiect hwn o fudd i'r ysgol a'r Brifysgol ehangach, ac yn denu staff, myfyrwyr, buddsoddwyr ac entrepreneuriaid;
- 2055.9 bod cefnogaeth gwasanaethau proffesiynol i'r prosiect hefyd wedi'i gynnwys yn y cynnig;
- 2055.10 y byddai lle i'r prosiect yng nghanol Caerdydd a bod lle o fewn adeilad sbarc i spark hefyd wedi'i awgrymu, er mwyn caniatáu rhannu cyngor a syniadau;
- 2055.11 bod y prosiect yn awyddus i helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydarddoldeb ac amrywiaeth o fewn y diwydiant seiber a helpu i fynd i'r afael â chanfyddiad gweithwyr proffesiynol seiberddiogelwch;
- 2055.12 y byddai'r prosiect yn helpu i roi Cymru ar flaen y gad yn y sector yn fyd-eang a'r gobaith oedd y byddai Caerdydd yn dod yn ganolbwynt ar gyfer technoleg a sgiliau seiber;
- 2055.13 Pwysleisiodd y Cyngor yr angen i sicrhau bod cynllunio senarios wedi'i wneud a'i gynnwys o fewn unrhyw gytundebau, er mwyn sicrhau y gellir eu diogelu at y dyfodol, a bod y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol wedi'u cynnwys mewn trafodaethau ynghylch y prosiect yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

- 2055.14 cymeradwyo cynnig Hyb Arloesedd Seiber dan arweiniad Prifysgol Caerdydd i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru, gan gydnabod yr heriau gweithredol a'r risgiau i enw da sy'n gysylltiedig ag arwain y rhaglen.
- 2055.15 cymeradwyo y dylid dirprwyo trosolwg pellach a chymeradwyaeth derfynol o fersiynau pellach o'r cynnig i'r Is-Ganghellor, a all ddirprwyo ymhellach i'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi a Menter a'r Dirprwy Is-Ganghellor Rhyngwladol a Recriwtio Myfyrwyr, Pennaeth Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg, mewn cysylltiad â'r Prif Swyddog Ariannol a'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi.

Gadawodd yr Athro Pete Burnap y cyfarfod.

2056 Diweddariadau Cynllun Buddsoddi – Cynllun Buddsoddi Cyfalaf 2018-23 a Chynllun Buddsoddi Tymor Byr 2021-23

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/861C, 'Diweddariadau'r Cynllun Buddsoddi - Cynllun Buddsoddi Cyfalaf 2018-23 a Chynllun Buddsoddi Tymor Byr 2021-23'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

NODWYD

2056.1 [HEPGORWYD]

2056.2 mai'r bwriad oedd cynhyrchu gwarged arian parod yn y blynyddoedd i ddod i'w fuddsoddi;

2056.3 nad oedd disgwyl i unrhyw brosiect fynd y tu hwnt i'w gyllideb ar hyn o bryd;

2056.4 bod nifer o brosiectau'n parhau i gael eu datblygu ac y byddent yn cael eu dwyn ymlaen i'w cymeradwyo ar gyfer cyllid gan y STIP.

2057 Cyllideb y Brifysgol 2022/23

Wedi derbyn ac ystyried papur 21/784C 'Cyllideb Arfaethedig ar gyfer 2022-23, Rhagamcanion Ariannol ar gyfer 2023-24, 2024-25, 2025-26'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

NODWYD

2057.1 [HEPGORWYD]

2057.2 [HEPGORWYD]

2057.3 bod nifer o bwysau costau, sef y gyfradd chwyddiant gyfredol;

2057.4 [HEPGORWYD]

2057.5 bod heriau proses a diwylliannol yn ymwneud ag amseru a gallu rhagweld cyllideb realistig;

2057.6 bod y ffigurau grant ymchwil yn realistig gan eu bod yn seiliedig ar weithgareddau sydd eisoes ar y gweill;

2057.7 y byddai trafodaeth ynghylch costau cyflog uwch yn cael ei chynnwys o dan eitem 11 ar yr agenda [Adroddiad yr Is-Ganghellor];

2057.8 yr awgrymwyd bod costau STIP yn cael eu prynu “uwchben y llinell” mewn fersiynau yn y dyfodol i gyflwyno sefyllfa gyllidebol fwy cywir.

PENDERFYNWYD

2057.9 cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23 ac i fersiynau yn y dyfodol gynnwys costau STIP uwchben y llinell.

2058 Adroddiad Yr Is-ganghellor i'r Cyngor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/905C, 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Cyngor'. Siaradodd yr Is-Ganghellor am yr eitem hon.

NODWYD

2058.1 bod y Brifysgol yn parhau i fod yn wylidwrus o ran cyflawni targedau recriwtio PGT y DU;

2058.2 y daethpwyd i gytundeb i osgoi boicot marcio ac asesu ond y cadarnhawyd y byddai pleidlais arall yn cael ei chynnal mewn perthynas â Gweithredu Diwydiannol yn y flwyddyn academiaidd newydd;

2058.3 bod papur 21/953HC wedi'i gyflwyno, a oedd yn cynnig taliad bonws pro-rata untro o £750 i staff, i gydnabod yr ymdrech ychwanegol sydd ei hangen oherwydd effeithiau parhaus y pandemig; byddai hyn yn costio tua £5 miliwn a oedd yn fforddiadwy o ystyried y gwarged a ragwelir ar hyn o bryd; nid oedd hyn yn gysylltiedig ag argyfwng costau byw, gan y byddai hynny'n cael ei adlewyrchu yn y trafodaethau cyflog; Roedd y Cyngor yn gefnogol iawn i'r taliad hwn; nodwyd na ddylid rhannu'r cynnig hwn ymhellach nes iddo gael ei gyhoeddi'n gyhoeddus;

2058.4 [HEPGORWYD]

2058.5 bod y pwysau costau yn cynyddu pwysigrwydd sicrhau recriwtio da o fyfyrwyr rhyngwladol;

2058.6 [HEPGORWYD]

2058.7 bod y Cyngor yn croesawu'r datganiad bod y Brifysgol yn sefydliad gwrth-hiliol;

2058.8 bod hyder y byddai ffigurau terfynol y myfyrwyr rhyngwladol yn gadarnhaol; roedd problemau'n parhau gyda myfyrwyr yn gallu teithio o Tsieina ac roedd y Brifysgol wedi cyfarfod â'r Llysgennad i Tsieina i adolygu atebion posibl;

2058.9 bod y Brifysgol yn parhau i weithio'n lleol i gefnogi ffoaduriaid o'r Wcrain a hefyd wedi sefydlu partneriaethau gyda phrifysgolion Wcrain i leihau effaith unrhyw “mudo ‘mennydd”;

2058.10 nad oedd y gostyngiad mewn ceisiadau ymchwil yn cael ei ystyried yn faes o bryder, gan fod y rhain yn aml yn gyfnewidiol.

PENDERFYNWYD

2058.11 cymeradwyo'r cynnig am daliad bonws untro i staff.

Gadawodd Bruna Gil y cyfarfod.

2059 Barn y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/833, 'The Student View 2022'. Siaradodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr am yr eitem hon.

NODWYD

- 2059.1 bod fformat Barn y Myfyrwyr wedi'i ddiwygio ychydig ac, yn hytrach nag awgrymu prosiectau partneriaeth, wedi cyflwyno argymhellion y gobeithiwyd y gellid eu defnyddio i ymgorffori gweithio mewn partneriaeth a newid o fewn strwythurau presennol y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr; cynigiwyd hefyd adrodd ar eitemau Safbwynt Myfyrwyr trwy gydol y flwyddyn wrth iddynt godi, yn hytrach nag ar ddiwedd y flwyddyn academaidd yn unig;
- 2059.2 mai'r pedair thema allweddol oedd Dysgu Cyfunol; Profiad y Defnyddiwr o Cyswllt Myfyrwyr; Man Astudio ac Oriau Agor y Campws; a Gweithredu Diwydiannol;
- 2059.3 bod argymhelliad i wella cyfathrebu o amgylch Cyswllt Myfyrwyr a gwneud gwasanaethau'n fwy dymunol lle bo modd;
- 2059.4 roedd myfyrwyr wedi gwerthfawrogi'r oriau agor hwy ar draws y campws a'r gobaith oedd y gellid ehangu hyn mewn rhai meysydd, lle'r oedd lle i wneud hynny; nodwyd y gallai hyn ddod yn bwysicach wrth i gostau byw (gan gynnwys gwresogi) effeithio ar fyfyrwyr;
- 2059.5 y cynigiwyd ail-fuddsoddi unrhyw arbedion a wnaed o streicio neu weithredu heb fod ar streic ym mhrofiad y myfyrwyr;
- 2059.6 nad oedd consensws ynghylch a oedd yn well gan fyfyrwyr addysgu ar-lein neu'n bersonol ond roedd adborth wedi cytuno y dylai hyn fod yn hygyrch i bawb;
- 2059.7 bod y Cyngor yn croesawu'r ddogfen a'r fformat diwygiedig;
- 2059.8 bod y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr yn diolch i Undeb y Myfyrwyr am y ddogfen ac yn nodi y byddai ymateb ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Tachwedd; nodwyd bod gwaith eisoes wedi dechrau mewn sawl maes y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad;
- 2059.9 bod Barn y Myfyrwyr wedi casglu mewnbwn myfyrwyr o amrywiaeth o ffynonellau, gweithgareddau a digwyddiadau i sicrhau ei fod yn cynnwys cymaint o fyfyrwyr â phosibl.

PENDERFYNWYD

2059.10 adolygu Safbwynt y Myfyriwr ar gyfer pynciau i'w cynnwys ar gyfer agendâu Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd yn y flwyddyn academiaidd nesaf.

2060 Profiad y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/906, 'Adroddiad Llywydd Undeb y Myfyrwyr'. Siaradodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

NODWYD

- 2060.1 bod Llywydd Undeb y Myfyrwyr wedi nodi'r canlynol sy'n deillio o'u hadroddiad:
- .1 bod Undeb y Myfyrwyr wedi gwella'n dda o'r pandemig, gan ddod yn ail yn y 'WhatUni Student Choice Awards' am yr Undeb Myfyrwyr Gorau a bod ymhell uwchlaw'r meincnod yng nghwestiynau'r NSS ar Undeb y Myfyrwyr;
 - .2 bod Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr wedi'u cynnal yn bersonol a bod yr enillwyr wedi'u cynnwys yn yr adroddiad;
 - .3 bod Cymdeithasau Varsity NERD wedi ennill y Wobr Cydweithio yn y Gwobrau Cymdeithasau a Gwirfoddoli Cenedlaethol;
 - .4 bod y tîm swyddogion sabothol newydd wedi dechrau ar 1 Gorffennaf;
- 2060.2 bod cyfathrebiadau ar ganlyniadau'r ACF wedi'u rhannu ag aelodau'r Cyngor cyn y cyfarfod a bod y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr wedi rhoi cyflwyniad;
- 2060.3 bod boddhad cyffredinol wedi cynyddu 3.3% a'i fod bellach o fewn y meincnod; roedd sector y DU a Chymru wedi cynyddu 1% a chyfartaledd Grŵp Russell wedi gostwng ac felly roedd y Brifysgol wedi elwa ar sector a oedd yn gwella'n arafach;
- 2060.4 bod gwelliannau hefyd wedi eu gweld ym mhob maes thematig, yn enwedig yn y thema adnoddau dysgu, a oedd yn gadarnhaol iawn;
- 2060.5 y bu gwelliannau ar gyfer nifer o bynciau (38), er bod rhai wedi lleihau (21) a bu rhai newidiadau mawr a oedd yn adlewyrchu'r anwadalwch; Roedd Therapi Galwedigaethol a Daearyddiaeth Ddynol wedi gostwng o dan 60% am flwyddyn ac felly roedd disgwyl y byddai angen monitro pellach gan CCAUC; Roedd economeg yn faes o bryder a byddai'r Brifysgol yn edrych ar ba gefnogaeth ac adnoddau sydd eu hangen ar y pwnc hwn;
- 2060.6 nad oedd y Brifysgol eto wedi cyrraedd cyfartaleddau Cymru, y DU na Grŵp Russell

- 2060.7 bod 17 o ddangosyddion wedi bod yn is na'r meincnod yn 2021 a bod hyn wedi gostwng i 8 yn 2022; cwestiynau Undeb y Myfyrwyr oedd yr unig rai uwchlaw'r meincnod;
- 2060.8 y byddai'r Grŵp Goruchwylio Perfformiad Addysg newydd yn cyfarfod i adolygu'r canlyniadau a hefyd yn cyfarfod â phob Coleg a Gwasanaethau Proffesiynol i adolygu eu cyfraniadau;
- 2060.9 bod y canlyniadau wedi'u rhannu â staff trwy BLAS a bod gwaith ar y gweill i rannu straeon newyddion da gyda myfyrwyr pan fyddant yn dychwelyd ym mis Medi;
- 2060.10 bod ACF wedi'i gynnwys fel eitem agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn 2022/23; nodwyd hefyd y byddai monitro gweithgareddau cyfredol (fel metrigau asesu ac adborth) yn helpu i ddangos sifftiau cyfredol, yn hytrach na chanlyniadau ôl-weithredol y NSS yn unig;
- 2060.11 bod gwaith ar y gweill i wella Llais y Myfyrwyr a sicrhau bod y ddolen adborth ar gau;
- 2060.12 bod y Cyngor wedi llongyfarch y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a'u tîm ar y gwelliannau a welwyd yn y canlyniadau a'r ysgolion lle gwnaed gwelliannau.

2061 Diweddariad Taith

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/866, 'Taith Update'.

- 2061.1 bod Dr Elid Morris, Pennaeth Gweithrediadau Taith, wedi ymuno â'r cyfarfod i siarad am yr eitem hon;
- 2061.2 bod yr enw newydd 'Taith' wedi'i ddewis yn dilyn cystadleuaeth gyhoeddus;
- 2061.3 bod y strategaeth a'r wefan wedi'u lansio ym mis Chwefror 2022 a bod y rhaglen wedi'i lleoli yn adeilad sbarc I spark ers mis Ebrill 2022;
- 2061.4 bod tri Chorff Trefnu Sector wedi'u penodi, i godi ymwybyddiaeth o raglen Taith a darparu hyfforddiant a chymorth uniongyrchol i sefydliadau yn eu sectorau priodol;
- 2061.5 mai Llwybr 1 oedd canolbwynt y rhan fwyaf o'r cyllid a'i fod yn canolbwyntio ar symudedd i mewn ac allan; Nod Llwybrau 2 a 3 oedd cefnogi'r llwybr cyntaf hwn drwy feithrin partneriaethau a gallu;
- 2061.6 bod galwad ariannu wedi'i chyhoeddi ym mis Mawrth; bu llawer o ddiddordeb gyda dros 70 o geisiadau ar draws y 6 sector (ysgolion, ieuencid, addysg uwch, addysg bellach, addysg a hyfforddiant galwedigaethol, ac addysg oedolion); byddai'r pwyllgor ariannu yn cyfarfod yn fuan i adolygu'r ceisiadau a gwneud

argymhellion, gyda'r gobaith y byddai'r symudiadau cyntaf yn digwydd ym mis Medi;

- 2061.7 bod y tîm wedi cael ei ganmol gan y Prif Weinidog am ba mor gyflym y cafodd y syniad ar gyfer Taith ei wireddu;
- 2061.8 bod cyllid o £10.83m wedi'i ddyfarnu ar gyfer Cam 3 Cymru Fyd-eang a bod Taith yn gweithio gyda Universities UK fel deiliad y dyfarniad ffurfiol;
- 2061.9 bod Taith yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Prifysgol Caerdydd a bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ynghylch ffurfioldeb a chyfreithlondeb ariannu; roedd y llythyr dyfarnu grant terfynol yn cael ei gwblhau a'r gobaith oedd ei gwblhau yn fuan;
- 2061.10 bod y rhaglen wedi comisiynu adolygiad llywodraethu, yn unol â chais Llywodraeth Cymru;
- 2061.11 bod y tendr ar gyfer system TG wedi'i ohirio ac y byddai'r ateb interim ar gyfer yr alwad am gyllid ar gyfer Llwybr 1 yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer yr alwad am Lwybrau 2 a 3.

Gadawodd Dr Elid Morris y cyfarfod.

2062 Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol ac Ymateb

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/907C, 'HEFCW IRR Letter and Response June 2022'. Siaradodd yr Is-Ganghellor am yr eitem hon.

NODWYD

- 2062.1 bod y llythyr adolygu risg drafft cychwynnol wedi adlewyrchu israddio yng ngraddfa risg y Brifysgol i gymedrol ac wedi nodi nifer o faterion i fynd i'r afael â hwy; roedd y Brifysgol wedi ymateb i'r llythyr drafft hwn ac wedi bod yn falch o weld y sgôr yn dychwelyd i isel;
- 2062.2 bod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi adolygu cynnwys yr ymateb ac wedi argymhell cymeradwyo hyn; roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod nifer o faterion heb eu datrys wedi'u cwblhau.

PENDERFYNWYD

- 2062.3 cymeradwyo'r ddogfen fel sail i ymateb y Brifysgol.

Gadawodd Michael Hampson y cyfarfod.

2063 Diweddariad Cynnydd: Adroddiad y Crwner ar Atal Marwolaethau yn y Dyfodol Tachwedd 2021

Wedi derbyn ac ystyried papur 21/908C, 'Ymateb i CCAUC ar Atal Marwolaethau yn y Dyfodol Mehefin 2022'. Siaradodd Ysgrifennydd y Brifysgol am yr eitem hon.

NODWYD

- 2063.1 bod y Brifysgol wedi derbyn Adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol gan Grwner Gogledd-orllewin Cymru ym mis Tachwedd 2021 ynghylch marwolaeth myfyriwr a bennwyd fel hunanladdiad; Roedd CCAUC wedi ysgrifennu llythyr at y Brifysgol ym mis Mawrth 2022 mewn perthynas â'r mater hwn;
- 2063.2 bod y papur yn cynnwys ymateb i lythyr CCAUC yn nodi'r gwelliannau a roddwyd ar waith mewn perthynas ag ailsefyll yn ystod y flwyddyn, cyfathrebu canlyniad arholiadau a'r fframwaith digwyddiadau difrifol er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod camau priodol wedi'u cymryd;
- 2063.3 bod Archwilio Mewnol hefyd yn cynnal archwiliadau i sicrhau bod y camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith (Mehefin 2022), i asesu effaith y camau a gymerwyd (Medi 2022); ac adolygu'r Fframwaith Digwyddiadau Difrifol (Mehefin 2022);
- 2063.4 y byddai'r camau a gymerwyd yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai digwyddiadau tebyg yn digwydd eto ond nad oedd yn bosibl atal hunanladdiadau pob myfyriwr.

PENDERFYNWYD

- 2063.5 cymeradwyo'r adroddiad fel un sy'n rhoi sicrwydd bod camau priodol wedi'u cymryd.

2064 Rheithfarn Prifysgol Bryste

Wedi derbyn ac ystyried adroddiad llafar gan Ysgrifennydd y Brifysgol

NODWYD

- 2064.1 bod y dyfarniad yn cael ei apelio.

PENDERFYNWYD

- 2064.2 i adroddiad cryno gael ei ddsbarthu i aelodau'r Cyngor ar yr eitem hon.

2065 Cofrestr Risgiau

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/805C 'Cofrestr Risgiau'. Siaradodd yr Is-Ganghellor am yr eitem hon.

NODWYD

- 2065.1 bod y risg mewn perthynas â Gweithredu Diwydiannol wedi cynyddu, yn sgîl cyhoeddi balot rhwng Awst a Hydref 2022 ar streic yn y flwyddyn academaidd newydd (un mewn perthynas â chyflogau ac un mewn perthynas â phensiynau);

2065.2 y gobaith oedd y byddai'r ymdrech a'r adnoddau sy'n cael eu rhoi yn y camau lliniaru ar gyfer y risg i les myfyrwyr yn dechrau gweld y risg yn y maes hwn yn lleihau.

PENDERFYNWYD

2065.3 cymeradwyo'r risgiau presennol, eu sgôr a'r camau lliniaru fel adlewyrchiad cywir o broffil risg y Brifysgol.

2066 Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/909C, 'Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol'. Siaradodd yr Is-Ganghellor am yr eitem hon.

NODWYD

2066.1 bod y papur yn cynnig set o DPAAu wedi'u diweddarau ychydig a fyddai'n cael eu hadrodd i'r Cyngor yn rheolaidd; roedd diweddariad ar gynnydd cyfredol hefyd wedi'i gynnwys;

2066.2 bod newidiadau i DPAAu y cytunwyd arnynt yn flaenorol wedi'u cynnwys yn y papur (e.e. cael gwared ar anelu at fod yn y 12 Uchaf ar gyfer REF, o ystyried mai dyma'r dangosydd blaenorol ac y byddai'n cael ei ddiweddarau ar gyfer y cylch REF nesaf, a'r DPA incwm ymchwil wedi'i ddiweddarau) ;

2066.3 bod DPA wedi cynnwys targedu gwagedu gweithredu;

2066.4 yr awgrymwyd y dylid cynnwys sgôr RAG mewn adroddiadau yn y dyfodol;

2066.5 y byddai hefyd yn fuddiol ystyried y goddefiannau a fyddai'n dderbyniol ar gyfer pob DPA (ee pe byddai gor-gyflawniad neu 10% yn fwy neu lai yn dderbyniol);

2066.6 ei bod yn anodd cymharu DPA grantiau ymchwil â sefydliadau cymharol eraill, gan fod y Brifysgol yn derbyn cyllid drwy WEFO ac UKRI ac felly nad oedd yn uniongyrchol gymaradwy â phrifysgolion Lloegr.

PENDERFYNWYD

2066.7 cymeradwyo dychwelyd i adroddiad llawn ar set uwch o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn y flwyddyn academaidd nesaf a chynnwys yr eitem hon ar agendâu'r Cyngor yn y dyfodol, gyda DPA manwl yn cael ei adrodd ym mhob cyfarfod i gynnwys negeseuon allweddol ac iaith safonol.

2067 Adroddiad gan y Pwyllgor Diswyddo i'r Cyngor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 21/887C, 'Adroddiad y Pwyllgor Dileu Swyddi i'r Cyngor'. Siaradodd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol am yr eitem hon.

NODWYD

- 2067.1 bod y papur yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor mewn perthynas â newidiadau staff arfaethedig o fis Hydref 2022 a oedd yn gofyn am gymhwyso Statud XV;
- 2067.2 bod y papur yn gofyn am gymeradwyaeth i'r weithdrefn mewn perthynas â chyfnod penodol a phenagored gyda staff ffactor perthnasol a gontractiwyd a'r cytundeb i sefydlu Pwyllgor Diswyddo i adolygu terfyniadau o'r fath; gofynnodd hefyd i awdurdod gael ei ddirprwyo i Gadeirydd y Cyngor neu, yn eu absenoldeb, Is-Gadeirydd y Cyngor i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Diswyddo ac i'r Cyfarwyddwr AD gyhoeddi'r rhybuddion angenrheidiol.

PENDERFYNWYD

- 2067.3 cymeradwyo'r weithdrefn mewn perthynas â'r ddau categori perthnasol o staff (fel y manylir yn y papur hwn) am 12 mis o fis Hydref 2022;
- 2067.4 penderfynu ei bod yn ddymunol lleihau'r staff academiaidd mewn perthynas â therfynau contract rhagamcanol y ddau categori perthnasol o staff academiaidd ar draws y Brifysgol dros y flwyddyn ganlynol o 1 Hydref 2022.
- 2067.5 sefydlu Pwyllgorau Diswyddo i ystyried terfyniadau o'r fath; penderfynir bod aelodaeth Pwyllgorau o'r fath yn unrhyw aelod lleyg o'r Cyngor, ynghyd â chronfa o aelodau enwebedig o'r Senedd; bydd y Pwyllgorau a gynullir at y diben hwn yn cael eu cadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor, neu enwebai o blith y Rhag Is-Ganghellorion;
- 2067.6 dirprwyo i'r Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb, Is-Gadeirydd y Cyngor yr awdurdod o dan baragraff 11(2) o Ran I o Statud XV, naill ai i gymeradwyo unrhyw argymhelliad dethol a wneir gan y Pwyllgor Diswyddo o dan is-adran (1), neu ei gyfeirio at y Pwyllgor Diswyddo i'w ystyried ymhellach yn unol â'u cyfarwyddiadau pellach; adroddiad ar benderfyniadau o'r fath i'w wneud i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor (2.1);
- 2067.7 dirprwyo awdurdod o dan baragraff 12(1) o Ran I o Statud XV i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i gyhoeddi hysbysiadau diswyddo yn dilyn penderfyniad a gymerwyd ar ran y Cyngor gan Gadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor (2.2).

2068 Penodi Aelod Lleyg ac Ailbenodi Rhag Ganghellor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 21/911C, 'Penodi Aelod Lleyg ac Ailbenodi Rhag Ganghellor' a 21/918C 'Bywgraffiad Byr o'r Ymgeiswyr a Argymhellir'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD

- 2068.1 i ailbenodi'r Parchedig Ganon Gareth Powell am ail dymor yn Rhag Ganghellor, o 01 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2025;

- 2068.2 penodi David Selway a Jennifer Wood yn aelodau lleyg o'r Cyngor, rhwng 01 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2025; penodi David Selway hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Jennifer Wood i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, rhwng 01 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2025;
- 2068.3 penodi Suzanne Rankin i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, o 01 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2025;
- 2068.4 penodi Michael Hampson i'r Pwyllgor Tâl, o 01 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2024 (yn unol â'i dymor ar y Cyngor);
- 2068.5 penodi Robert Weaver yn aelod lleyg nad yw'n aelod o'r Cyngor o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, o 1 Awst 2022 tan 31 Gorffennaf 2025;
- 2068.6 i Gadeirydd y Cyngor ysgrifennu at aelodau lleyg y Cyngor mewn perthynas â'r lleoedd gwag ar y Pwyllgor Diswyddo a Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr;
- 2068.7 penodi Rhian Hutchings yn aelod lleyg nad yw'n aelod o'r Cyngor o'r Pwyllgor Ymchwil Agored, Uniondeb a Moeseg o 1 Awst 2022 tan 31 Gorffennaf 2025.

Gadawodd Jan Juillerat y cyfarfod.

2069 Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

Wedi derbyn ac ystyried papur 21/892, 'Fframwaith Addysgu Ardderchog (TEF)'. Siaradodd y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

- 2069.1 bod y Brifysgol wedi llunio data drafft ar TEF ac wedi nodi, er ei bod yn perfformio'n dda o ran canlyniadau, ei bod yn perfformio'n wael o ran profiad myfyrwyr; roedd hyn eisoes yn hysbys trwy ddangosyddion eraill (ee NSS) ac felly ni chynigiwyd mynd i mewn i'r fersiwn hwn o TEF, a fyddai'n galluogi canolbwyntio adnoddau ar wneud gwelliannau ar gyfer yr iteriad nesaf; byddai hyn yn cael ei adolygu eto ar sail data mis Hydref;
- 2069.2 nad oedd TEF yn orfodol yng Nghymru na'r Alban ac, ar hyn o bryd, dim ond Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe oedd wedi nodi y gallent ymgysylltu â'r dychweliad;
- 2069.3 nad oedd TEF yn gysylltiedig ag incwm ac nid oedd yn ymddangos bod y canlyniad yn dylanwadu ar recriwtio myfyrwyr yn yr un modd â mesurau allanol eraill megis REF.

Gadawodd Claire Sanders y cyfarfod.

2070 Unrhyw Fater Arall

NODWYD

- 2070.1 y diolchwyd i'r aelodau canlynol o'r Cyngor a oedd yn gadael am eu gwasanaeth:

- David Simmons
- Y Barnwr Ray Singh
- Dr Janet Wademan
- Yr Athro Kenneth Hamilton
- Ricardo Calil

2070.2 diolchwyd hefyd i Bruna Gil, y Prentis Llywodraethwr sy'n gadael.

2071 Eitemau a Dderbyniwyd i'w Cymeradwyo

PENDERFYNWYD

2071.1 cymeradwyo'r papurau canlynol:

- 21/910 Cyfran #1 y Cynllun Dirprwyo
- 21/874C Rheoliadau Ariannol
- 21/875C Fframwaith Dirprwyo Awdurdod Ariannol
- 21/864HC Adolygiad Cytundeb Ariannol Undeb y Myfyrwyr 2021-22
- 21/717 Polisi Buddion Ymddiriedolwyr – Adolygiad Blynyddol
- 21/771 Newidiadau i Ordinhadau
- 21/912C Telerau Penodi Archwilwyr Allanol

2072 Eitemau a Dderbyniwyd er Gwybodaeth

NODWYD

- 21/913C Adroddiad y Cadeirydd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 21/914C Fframwaith Adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol Diweddariad 2022 i'r Cyngor
- 21/800C Strategaeth Archwilio Flynyddol 2022-23
- 21/886C Adroddiad y Cadeirydd F&RC i'r Cyngor
- 21/903C Crynodeb Dangosfwrdd Adnoddau Dynol
- 21/870C Adroddiad Blynyddol ar Gyd-fentrau
- 21/862C Diweddariad CIC
- 21/902C Adroddiad Cadeirydd Y Pwyllgor Llywodraethu
- 21/782 Rhaglen Hyfforddiant a Chynefino'r Cyngor 2022-23
- 21/891C Adroddiad y Senedd i'r Cyngor
- 21/834C Diweddariad ar y Llys ac Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid
- 21/839 Partneriaeth gyda Phrifysgol Technoleg Dalian
- 21/840 Partneriaeth ryngwladol gyda Phrifysgol Namibia sy'n ymdrin â'r Genhadaeth ddinesig
- 21/843 Teitlau Emeritws ac Emerita a ddyfarnwyd ers 1 Ebrill 2021
- 21/890 Selio Trafodion
- 21/889 Rhestr Busnes y Pwyllgor ar gyfer y Flwyddyn 2022-23 v2

“bod Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 07 Ebrill 2022 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir”.

Cadeirydd

Dyddiad 24 Tachwedd 2022